

Gweithdai Rhanbarthol Wedi'u Hwyluso – Cydwethrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio Adroddiad cenedlaethol y gweithdai Nyrsio rhanbarthol 2022

Cyflwyniad

Model Gofal Sylfaenol Cymru (MGSC)¹ yw'r dull y cytunir arno'n genedlaethol ar gyfer cyrraedd uchelgais Cymru Iachach² wrth ail-gydbwysu'r system iechyd a gofal. Newid ffocws gofal o fod mewn ysbyty i ddull seiliedig ar le, gyda chydweithio effeithiol ar lefel gymunedol yn asesu angen poblogaeth, a chynllunio a darparu gofal a chymorth di-dor i ddiwallu'r angen a aseswyd hwnnw.

Mae egwyddorion craidd mynediad teg, cynaliadwyedd, gwella ansawdd, gweithlu medrus, ac arweinyddiaeth gref yn ganolog iddo.

Y Rhaglen [Cyflymu Datblygiad Clwstwr](#) (CDC) yw'r elfen Gofal Sylfaenol o Ofal Seiliedig ar Le, a gyflwynir trwy [Gydweithrediadau Proffesiynol](#), Clwstwr a [Grwpiau Cynllunio Traws-ghwstwr](#) (GCTGau), i ehangu a chryfhau ymgysylltu aml-broffesiynol a chynyddu dylanwad y gymuned ar benderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh).

Cydweithrediadau Proffesiynol yw'r mecanweithiau lle mae arferion Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC), Arferion Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, arferion Optometreg, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Nyrsys Cymunedol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill yn dod at ei gilydd o fewn eu grwpiau penodol proffesiwn ar draws ôl troed daearyddol y cytunwyd arno i ystyried sut maen nhw'n ymateb i asesiadau anghenion poblogaeth ranbarthol.

Mae pob Cydwethrediad Proffesiynol yn ystyried diogelwch, ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau lleol o'i safbwynt unigryw. Fodd bynnag, mae angen ymateb aml-broffesiynol i lawer o'r cynigion i wella'r gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer gofal cymhleth a'r grwpiau mwyaf bregus. Bydd y Clystyrau a'r GCTGau yn darparu'r fforwm i ystyried a chydlynu'r datblygiadau hyn.

I gefnogi datblygiad y Cydwethredwyr Proffesiynol, cynhaliwyd gweithdai cenedlaethol gyda'r fferyllwyr, yr optometryddion, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPIau) a'r nyrsys i drafod a chytuno sut mae'r rhain yn cael eu symud ymlaen a'u gweithredu o fewn eu proffesiwn. Bydd y grŵp Deintyddol yn cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn dilyn y gweithdy Nyrsio cenedlaethol, cytunwyd y byddai gweithdai rhanbarthol yn cael eu cynnal ym mhob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r meddylfryd ynghylch cyflwyno Cydwethrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.

Diben cytûn y gweithdai oedd:

- Adeiladu ar drafodaethau yn y gweithdy cenedlaethol ac i lywio ymhellach y darlun cenedlaethol.

¹ [Model Gofal Sylfaenol Cymru](#)

² [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)



- Cefnogi gweithredoli lleol y Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio ym mhob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd.
- Cytuno ar gynllun a'r camau nesaf i gael Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn ei le, ac i nodi sut y bydd y proffesiwn Nyrsio yn bwydo i mewn i'r Clystyrau a'r GCTGau.

Comisiynwyd PCC i hwyluso'r gweithdai'n annibynnol i gefnogi trafodaethau a llunio adroddiad sy'n crynhoi'r trafodaethau a'r camau y cytunwyd arnynt. Defnyddiwyd yr adborth a'r wybodaeth a gipiwyd ym mhob un o'r saith gweithdy rhanbarthol i ddatblygu'r adroddiad Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio cenedlaethol cyffredinol hwn.

Y gweithdy a phresenoldeb

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol Nyrsio ym mhob un o'r saith ardal Bwrdd Iechyd ym mis Medi a Hydref 2022. Roedd 163 o gyfranogwyr ar draws y gweithdai yn cyfrannu eu barn a'u meddyliau ar sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn ardal eu Bwrdd Iechyd.

Mynychodd cynrychiolwyr o bob un o'r Byrddau Iechyd a'r Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (RhSGS).

Hwyluswyd y gweithdai gan ddau hwylusydd o PCC: naill ai Helen Simmonds, Mike Fry neu Helen Northall.

Dechreuodd pob gweithdy gyda chyflwyniad a throsolwg gan Chiquita Cusens, Arweinydd Cenedlaethol Nyrsio ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Roedd hyn yn cynnwys trosolwg o'r weledigaeth ar gyfer Cydweithrediadau Proffesiynol a'r strwythurau arfaethedig. Darparwyd crynodeb o drafodaethau'r gweithdy cenedlaethol, gan gynnwys y camau gweithredu lefel uchel y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio i'w cyflwyno ar draws Cymru:

- Gofal Iechyd darbodus.
- Cynrychiolaeth gynhwysol.
- Lleihau anghydraddoldeb.
- Atal.
- Cadw / bodlonrwydd.
- Cydnabod cryfder mewn Nyrsio.

Mae copi o'r cyflwyniad a ddefnyddir ym mhob un o'r gweithdai i'w gweld yn Atodiad 1.

Roedd agenda safonol yn cael ei defnyddio ar draws y saith gweithdy a'r agenda'n nodi nifer y cwestiynau i'w hystyried gan y grŵp i gefnogi trafodaethau. Roedd y trafodaethau a'r cyfraniad manwl gan gyfranogwyr wedi ymdrin â themâu allweddol yr agenda, fodd bynnag, nid oedd pob un o'r cwestiynau penodol a nodwyd yn cael eu hystyried yn fanwl. Mae copi o'r agenda wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Rhannwyd y trafodaethau'n dair thema gyffredinol:

- Sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn lleol.
- Gofynion isadeiledd i gefnogi'r broses sefydlu.
- Y camau nesaf a chynllunio.

Cipiwyd cyfraniadau drwy adborth a thrafodaethau geiriol yn y swyddogaeth sgwrsio o fewn MS Teams. Defnyddiwyd Mentimeter (meddalwedd cyflwyno ryngweithiol) hefyd ar gyfer rhai o'r

cwestiynau. Defnyddiwyd y cyfraniadau hyn wrth greu'r adroddiadau unigol ac maent wedi'u crynhoi yn yr adroddiad trosolwg cenedlaethol hwn.

Sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn Lleol

Cyfluniad Lleol Cydweithrediadau Proffesiynol

Dechreuodd y gweithdai gyda thrafodaeth am ffurfio Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn rhanbarth y Bwrdd Iechyd perthnasol.

Ni ddaeth pob grŵp i gytundeb ar drefn y Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio, a chytunwyd bod angen ymgysylltu a thrafodaethau pellach cyn gwneud penderfyniad terfynol. Ar gyfer yr ardaloedd hynny nad oedd yn gallu dod i gonsensws cytunwyd ar restr o opsiynau posibl ar gyfer y fformat. Mae'r tabl isod yn nodi'r fformat y cytunwyd arno ar gyfer Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Ardal Ranbarthol	Fformat y cytunwyd arno ar gyfer Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Bydd tri Chydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio: Gogledd a Gorllewin Caerdydd, De a Dwyrain Caerdydd a Bro Morgannwg.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Un Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Bydd rhanbarth y Gorllewin yn gweithredu o fewn y sir gyda dau Gydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Bydd rhanbarthau'r Canol a'r Dwyrain yn defnyddio dull Cymuned Iechyd Integredig (CII) gydag un cydweithrediad proffesiynol yn cwmpasu pob CII.
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Un Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Mae un Cydweithrediad Proffesiynol Nyrsio eisoes yn gweithredu ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.
Bwrdd Iechyd	Roedd tri opsiwn wedi'u nodi:

Prifysgol Hywel Dda	• Un Cydweithrediad Proffesiynol Nyrsio ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. • Tri Chydweithrediad Proffesiynol Nyrsio yn unol â'r ffiniau sir: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. • Saith Cydweithrediad Proffesiynol Nyrsio yn unol ag ôl troed y Clwstwr.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Un Cydweithrediad Proffesiynol ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cydweithrediadau nyrsio penodol (11 neu 5) ar gyfer nyrsio cymunedol ac iechyd cyhoeddus (isod) gyda chynrychiolydd dynodedig ar bob RhGC • Nyrsio cymunedol – nyrsio ardal, nyrsio cyflym ac ysbytai cymunedol • Nyrsio mewn Iechyd Cyhoeddus – ymwelwyr iechyd, nyrsio ysgolion ac imiwneiddio

Nodwyd ystyriaethau ychwanegol hefyd drwy'r trafodaethau, ac roedd y themâu cyffredin ar draws y gweithdai yn cynnwys:

- Cyfle i roi llais i Nyrsio a'r cyfle i ddylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu llunio ar gyfer poblogaethau lleol.
- Gallu trafod materion lleol tra'n cael golwg gyffredinol ar draws y system iechyd gyfan, gan gydnabod na fydd unrhyw un dull neu drefniant yn datrys pob problem.
- Mae angen i'r Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio gynrychioli'r gymuned Nyrsio gyfan.
- Bydd y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn gwella'r cyfleoedd i ddeall rolau ei gilydd a sut y gall nyrsys gydweithio, rhannu sgiliau ac adnoddau.
- Cydnabyddiaeth bod cymysgedd o ffyrdd y mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu trefnu ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar strwythur y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.
- Mae perthnasau a rhwydweithio yn elfen allweddol.
- Mae angen canolbwyntio ar ddeall anghenion y boblogaeth.
- Mae angen gweledigaeth glir ar y gofynion cyflawni ar gyfer y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Dylai hyn alinio â phum blaenoriaeth y Prif Swyddog Nyrsio.
- Ystyried sut y gellir datblygu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio trwy seilwaith cyfarfodydd presennol o fewn y Byrddau Iechyd.
- Mae'n hanfodol bod y strwythur yn cefnogi mewnbwn a chyfranogiad y staff hynny sy'n gweithio ar lawr gwlad, yn ogystal â'r timau arwain.
- Ystyriaeth y gall Cydweithrediadau Proffesiynol weithredu fel model "prif ganolfan a lloerennau" gydag un grŵp cyffredinol a grwpiau llai sydd â'r gallu i ganolbwyntio ar faterion lleol.
- Angen bod yn glir ynghylch pwrpas y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.
- Mae rhyddhau Nyrsys Practis Cyffredinol, Nyrsys Cartref Gofal a Nyrsys eraill y tu allan i gyflogaeth y Bwrdd Iechyd yn bryder cyffredin.
- Mae cydnabyddiaeth bod 2022/23 yn flwyddyn drosiannol, ac efallai y bydd angen addasu a newid siâp a fformat Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio dros amser.
- Cydnabyddiaeth bod hwn yn gam cadarnhaol a chyffrous ymlaen i'r proffesiwn Nyrsio.

Cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio

Roedd pob un o'r gweithdai wedi ystyried pwy fydd yn eistedd o amgylch bwrdd Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Nododd pob grŵp yr angen am gynrychiolaeth dda ar fwrdd Cydweithrediadau Proffesiynol a pha mor effeithiol y mae cynrychiolaeth yn cael ei bwydo drwodd i'r Clwstwr, gyda rhywun sy'n deall anghenion lleol yr ardal honno, yn ogystal â'r darlun Nyrsio llawn.

Roedd consensws cyffredinol ar draws yr holl weithdai y dylai cynrychiolaeth yn y Cydweithrediadau Proffesiynol gynnwys pob grŵp nyrsio. Ymhlith yr awgrymiadau roedd:

- Nyrsys Cymunedol.
- Ymwelwyr Iechyd.
- Nyrsys Ardal.
- Bydwreigiaeth.
- Nyrsys Practis.
- Nyrsys cartref gofal.
- Nyrsys Iechyd Meddwl.

Ymhlith yr ystyriaethau penodol a nodwyd roedd:

- Efallai y bydd angen newid aelodaeth y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio yn dibynnu ar anghenion y boblogaeth ar y pryd.
- Gallai'r pwnc dan sylw ddylanwadu ar bresenoldeb yn y cyfarfodydd.
- Cydnabyddiaeth o'r pwysau ar dimau sy'n gweithio i gapasiti a diffyg staff, a sut y gall timau fod yn rhan o'r broses heb roi mwy o bwysau a galwadau arnynt
- Y cydbwysedd rhwng bod yn gynhwysol heb greu strwythur cyfarfod sy'n rhy fawr ac anhylaw.
- Barn uwch nyrsys a gafwyd o'r gweithdai yn bennaf ac mae angen sicrhau bod nyrsys rheng flaen yn rhan o'r broses.
- Mae cyfathrebu yn allweddol gan nad yw llawer o nyrsys ar draws gofal sylfaenol a chymunedol yn ymwybodol o'r gwaith a'r clystyrau hyn.

Cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd Clwstwr

Roedd pob un o'r gweithdai yn trafod cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd Clwstwr. Roedd cydnabyddiaeth ar draws yr holl weithdai ei bod yn bwysig bod Nyrsys yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd Clwstwr, ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill, fel partneriaid cyfartal o gwmpas y bwrdd.

Roedd consensws cyffredinol ar draws y rhan fwyaf o'r gweithdai rhanbarthol dros yr angen i fwy nag un unigolyn a ddewiswyd fynychu'r cyfarfodydd Clwstwr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys:

- Gall aelodaeth newid yn dibynnu ar y pynciau dan sylw.
- I gyflenwi am absenoldeb.
- Sicrhau cynrychiolaeth briodol ar gyfer darnau penodol o waith.
- Yr angen i rannu'r cyfrifoldeb.
- Yr ymrwymiad amser sylweddol i fynychu pob un o gyfarfodydd y Clwstwr.



Roedd cydnabyddiaeth bod angen cynrychiolaeth gyson yn y cyfarfodydd Clwstwr; i feithrin perthynas, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth, gyda digon o wybodaeth i ddod ag arbenigwyr neu arbenigedd i mewn yn ôl yr angen, i gefnogi canlyniadau cydweithredol cynhyrchiol.

Cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd GCTG

Roedd cydnabyddiaeth ar draws pob un o'r gweithdai rhanbarthol o bwysigrwydd cyfranogiad Nyrsio yn y GCTGau. Nododd y rhan fwyaf o'r gweithdai y bydd angen trafodaethau pellach i nodi'r gynrychiolaeth briodol yn y GCTG.

Cyd-ddealltwriaeth o rolau nyrsio

Bu rhai o'r gweithdai rhanbarthol yn trafod sut y gallai'r grwpiau amrywiol o gynrychiolwyr nyrsio ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o rolau ei gilydd. Cafwyd nifer o awgrymiadau a syniadau ymarferol ar gyfer rhannu dysgu a dealltwriaeth. Roedd yr awgrymiadau cyffredin yn cynnwys:

- Cyfathrebu.
- Rhannu trafodaethau / fforymau.
- Gweithdai.
- Cyflwyniadau.
- Arddangos gwasanaethau.
- Defnyddio straeon cleifion.

Ymhlith yr enghreifftiau penodol a awgrymwyd roedd:

- Cyfleoedd i gysgodi.
- Cwisiau ar ddealltwriaeth o rolau.
- Mapio rolau.
- Podlediadau.

Gofynion isadeiledd i gefnogi'r broses sefydlu.

Roedd pob un o'r gweithdai yn ystyried y gofynion seilwaith i gefnogi proses sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Roedd consensws ar draws yr holl weithdai bod y canlynol yn hanfodol er mwyn cefnogi'r broses sefydlu:

- Cymorth gweinyddol i drefnu a chefnogi'r gwaith o gynnal cyfarfodydd.
- Neilltuo amser i allu paratoi a mynychu cyfarfodydd, a gallu gweithredu unrhyw ddilyniant sydd ei angen; ac i hyn fod yn rhan gydnabyddedig o'r rôl swydd. Mae hyn yn cynnwys yr amser a'r gofod sydd ei angen gan y Clwstwr a'r arweinwyr GCTG hynny a enwebwyd i wneud cysylltiadau a deall yn llawn ehangder Nyrsio y maent yn eu cynrychioli.
- Seilwaith technegol, TG a digidol. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau fel gyriannau a rennir a llwyfannau MS Teams.
- Data a chymorth i ddeall anghenion iechyd y boblogaeth.
- Ariannu a'r gallu i ôl-lenwi, gan gynnwys i nyrsys practis cyffredinol, nyrsys cartrefi gofal a rhai sy'n gweithio y tu allan i'r Bwrdd Iechyd.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill a nodwyd yn ystod y trafodaethau roedd:

- Cymorth ychwanegol megis rheoli prosiectau a hwyluso i gefnogi proses sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.
- Adnoddau ychwanegol, fel mapio gwasanaethau a chyfeirlyfr, i ddarparu enwau a manylion rolau cyfranogwyr unigol.

Trafodwyd gofynion seilwaith y rôl Arweiniol hefyd, a oedd yn cynnwys:

- Mae angen i'r Arweinwyr deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael y wybodaeth gyfredol.
- Mae cyfathrebu da yn hanfodol.
- Bydd angen i'r Arweinydd feddu ar ddealltwriaeth dda o ehangder y rolau nyrsio.
- Cydnabyddiaeth na fydd gan unigolion yr atebion i bopeth, ac mae angen rhannu'r syniadau a herio mewn modd adeiladol.
- Bydd cymorth ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).
- Yr angen am gymorth i'r rhaglen.

Prosiectau a chyfleoedd posibl i'w datblygu ar lefel Clwstwr i wella iechyd y boblogaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithdai yn cydnabod mai'r gweithdai rhanbarthol oedd un o'r camau cyntaf yn natblygiad Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Ystyriodd y gweithdai rhanbarthol rai o'r cyfleoedd posibl y gellid eu hystyried eu datblygu.

Nodwyd nad oedd pob proffesiwn a maes yn cael eu cynrychioli yn y gweithdai, felly nid oedd y rhestr o brosiectau a nodwyd yn rhestr ddiffiniol ond bod rhai cyfleoedd posibl y gellid eu symud ymlaen. Ar draws y saith gweithdy roedd dros 100 o awgrymiadau a syniadau i wella iechyd y boblogaeth. Ymhlith yr enghreifftiau cyffredin roedd:

- Hybu Iechyd.
- Allgáu cymdeithasol.
- Maeth mewn plentynod.
- Gwasanaethau eiddilwch.
- Rheoli cyflyrau cronig.
- Rheoli pwysau.
- Imiwneiddio a brechlynnau.

Y camau nesaf a chynllunio

Nododd yr holl weithdai nifer o gamau allweddol a'r camau nesaf i fwrw ymlaen â sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Ymhlith y camau cyffredin a nodwyd roedd:

- Trafodaethau pellach gyda'r Arweinwyr Nyrsio, Penaethiaid Nyrsio a thimau rheoli perthnasol.
- Ymgysylltu ymhellach a chodi ymwybyddiaeth o'r DCC a'r Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Nyrsio ar draws timau Nyrsio.
- Cytuno ar fformat y Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.
- Datblygu cynrychiolaeth gan Nyrsio y tu allan i strwythur y Bwrdd Iechyd
- Adolygiad o strwythurau cyfarfod presennol i nodi grwpiau posibl y gellid eu datblygu i'r Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio.



- Mapio'r gofynion a'r llinell amser ar gyfer datblygu Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio, gan gynnwys cymorth gweinyddol.
- Ystyried a chytuno sut y bydd cynrychiolaeth yn cael ei wneud i gyfarfodydd Clwstwr a GCTG.

Nododd rhai o'r trafodaethau hefyd sut olwg fyddai ar lwyddiant ar gyfer Cydweithrediadau Proffesiynol ar gyfer Nyrsio. Roedd adborth yn cynnwys:

- Mae llinellau cyfathrebu clir ar waith.
- Mae llais Nyrsio yn cael ei glywed mewn cyfarfodydd Clwstwr a'r GCTG.
- Gostyngiad mewn gweithio seilo.
- Gwell perthnasau Nyrsio a dealltwriaeth o'i gilydd.
- Gwell profiad gwaith.
- Gwell profiad a chanlyniadau i'r unigolyn, y gymuned a'r boblogaeth leol.



Atodiad 1 – cyflwyniad y gweithdy



Cyflwyniad
Cydweithrediadau P

Atodiad 2 – agenda



Agenda Cyffredin
Terfynol - Gweithdy